

DWNED

Cylchgrawn Hanes a Llên Cymru'r Oesoedd Canol

ISSN 1361-360X

Golygyddion

Bleddyn Owen Huws

A. Cynfael Lake

Rhif 27

2021

Cyhoeddir *Dwned* gan y Golygyddion, Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3AJ. Argraffwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

(h) Y Golygyddion piau hawlfraint *Dwned*. Ni ellir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ddull na modd heb gael eu caniatâd ysgrifenedig hwy yn gyntaf.

Y Cynnwys

Y Pencerdd yn y Canu Llys RHIAN M. ANDREWS	11
<i>Owain Glyndŵr a Syr Edmund Mortimer: Brwydr y Bryn Glas (1402) ac wedyn</i> GRUFFYDD ALED WILLIAMS	39
‘Rhyw farwol law’: Ailddarganfod Llawysgrifau Tudur Aled GRUFFUDD ANTUR	71
Gruffudd ap Dafydd ap Hywel: Prydydd (g. tua 1480 – bu f. ar ôl 1527) DAFYDD WYN WILIAM	81
Rhai Nodiadau Daearyddol Canoloesol ALEXANDER FALILEYEV	89
<i>Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur: Tri Nodyn</i> BARRY J. LEWIS	113

Cyhoeddir y cylchgrawn hwn yn flynyddol. Anfoner pob cyfraniad at y Golygyddion, Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AJ.

Rhai Nodiadau Daeryddol Canoloesol¹

1. *Ynyssoed Corsica*, ‘Culhwch ac Olwen’, ll. 121

Digwydd yr unig sôn am *ynyssoed Corsica* yn llinell 121 yn ‘Culhwch ac Olwen’, yn y catalog o leoedd sy’n rhan o araith Glewlwyd Gafaelfawr:

‘Mi a uum gynt yGhaer Se ac Asse, yn Sach a Salach, yn Lotor a Fotor. Mi a uum gynt yn yr India Uawr a’r India Uechan. Mi a uum gynt yn ymlad deu Ynyr pan ducpwyt y deudec gwystyl o Lychlyn. A mi a uum gynt yn yr Egrop, a mi a uum yn yr Affric, ac yn ynyssoed Corsica, ac yGhaer Brythwch a Brythach a Nerthach’.²

Dangosodd ysgolheigion lawer o ddiddordeb yn y darn hwn a chynigiwyd gwahanol ddeongliadau arno.³ Yr oedd Corsica yn sicr yn hysbys yng Nghymru’r Oesoedd Canol; cyfeirir at yr ynys yn ‘Delw y Byd’, sef cyfieithiad Cymraeg o *Imago Mundi* Honorius Augustodunensis,⁴ ac aeth Natalia Petrovskaia ati yn ddiweddar i

¹ Mae’r erthygl hon yn rhan o brosiect y Sefydliad Gwyddoniaeth Rwsiaidd, RSF No. 17-18-01624. Rwy’n ddiolchgar i Dr Simon Rodway am ei gymorth.

² *Culhwch and Olwen: An Edition and Study of the Oldest Arthurian Tale*, ed. Rachel Bromwich and D. Simon Evans (Cardiff, 1992), t. 5. Ar Glewlwyd Gafaelfawr, gw. Nerys Ann Jones, *Arthur in Early Welsh Poetry* (Cambridge, 2019), t. 32, ac ar yr epithed, gw. Stefan Zimmer, ‘Some names and epithets in Culhwch ac Olwen’, *Studi Celtici*, 3 (2004), 163–79 (t. 167).

³ Gw. Brynley F. Roberts, ‘Yr India Fawr a’r India Fechan’, *LIC*, 13 (1980–1), 281–3; Sioned Davies, ‘Performing Culhwch ac Olwen’, yn *Arthurian Literature XXI: Celtic Arthurian Material*, ed. Ceridwen Lloyd-Morgan (Cambridge, 2004), tt. 29–51 (tt. 36–7); Andrew Breeze, ‘Orosius, the Book of Taliesin and Culhwch and Olwen’, *SC*, 45 (2011), 203–9 (tt. 207–9); Andrew Breeze, ‘Caer Brythwch and Brythach and Nerthach in “Culhwch and Olwen”’, *Journal of Literary Onomastics*, 3 (2014), 1–4; Natalia Petrovskaia, *Medieval Welsh Perceptions of the Orient* (Turnhout, 2015), tt. 145–53. Am gysylltiad y darn â ‘Mi a wum ...’ o Lyfr Du Caerfyrddin, cymh. Jones, *Arthur in Early Welsh Poetry*, t. 15.

⁴ *Delw y Byd*, gol. Henry Lewis a P. Diverres (Caerdydd, 1928), t. 49 a 98. Gw. hefyd y nodyn t. 123 a chymh. Roberts, ‘Yr India Fawr a’r India Fechan’, 282.

drafod y dystiolaeth.⁵ Felly, un cwestiwn anodd ei ateb yw pam y dewiswyd y ffurf luosog yn ‘Culhwch ac Olwen’. Nododd Brynley F. Roberts nad oedd cyfeiriad arall at yr ynys ac eithrio'r un yn ‘Delw y Byd’,⁶ ac yn ôl Rachel Bromwich a D. Simon Evans, ‘a lack of exact knowledge is probably the reason for Glewlwyd’s *ynyssoed Corsica*’.⁷ Er hynny, sylwodd Petrovskaia, ‘[i]t is possible, but undesirable, to argue for the compiler’s ignorance of medieval geographical traditions’, ac aeth rhagddi i ystyried esboniadau eraill:

It may be possible to argue that the text is intended to read ‘islands of Corsica’, implying that several islands make up a single unit carrying the name, but evidence from other textual sources suggests otherwise. [...] Since Corsica is (and was known as) a single island, even in *Delw y byd*, and since the other place-names appear in pairs at least, it is possible that the *ynyssoed* introduced a doublet of which the second item has been lost. As it is, not only does Corsica stand out because the identification as ‘islands’ is wrong (although that can be ascribed to authorial or scribal ignorance), but also because it is on its own in the sequence *Se + Asse, Sach*

⁵ Natalia Petrovskaia, ‘The concept of Europe in the medieval Welsh geographical treatise *Delw y Byd*’, *Celtic Forum*, 21 (2018), 23–34 (t. 28).

⁶ Roberts, ‘Yr India Fawr a’r India Fechan’, t. 282. Yn wir, nid oes enghraifft arall o *Gorsica* mewn Cymraeg cynnar hyd y gwn i, gw. A. Parry Owen, ‘Mynegai i enwau priod ym marddoniaeth Beirdd y Tywysogion’, *LIC*, 20 (1997), 25–45; A. Parry Owen, ‘Mynegai i enwau priod yng ngwaith beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg’, *LIC*, 31 (2008), 35–89, a’r mynegeion i Peter Wynn Thomas, D. Mark Smith, Diana Luft, *Rhyddiaith Gymraeg 1350–1425* <<http://www.rhyddiaithganoloesol.caerdydd.ac.uk>> a G.R. Isaac, K. Kappahn, S. Nurmio, S. Rodway, P. Sims-Williams, 2013, *Rhyddiaith Gymraeg o Lawysgrifau'r 13eg Ganrif/13th Century Welsh Prose Manuscripts* <doi.org/10.20391/3abf4ef1-e364-4cce-859d-92bf4035b303>.

⁷ Bromwich & Evans, *Culhwch and Olwen*, t. 59.

+ *Salach, Lotor + Fotor, India mawr +
India vechan [...] Europe + Africa [...]*.⁸

Yn sicr, mae anwybodaeth y sawl a roes wedd derfynol ar y chwedl yn ystyriaeth, ond yn amlach fe geir newidiadau wrth i destunau gael eu trosglwyddo, a hynny oherwydd diffyg gwybodaeth copiwr am enwau priod estron a dieithr. Datryswyd llawer dirgelwch mewn testunau canoloesol,⁹ ond eto nid oes amheuaeth, fel y nododd Anthony Carr, '[that] the horizons and world-view of the Welsh were not bounded by their own localities or even by the British Isles'.¹⁰ Cytunaf â Petrovskaia nad oedd *ynyssoed Corsica* yn debyg o fod yn ganlyniad anwybodaeth ddaeryddol, er bod hynny'n bosibl.

Fel y gŵyr pawb, dim ond un ynys Corsica a oedd yn hysbys yn y traddodiad clasurol a chanoloesol.¹¹ Nid oes archipelago â Chorsica yn ei ganol sy'n rhoi ei enw ar yr ynnysoedd eraill. Yn ddiddorol iawn, yn ôl gwybodaeth gartograffeg ganoloesol, ceir ffurfiau unigol a lluosog ar rai ynnysoedd mytholegol fel *Gadarontha* a *Gadarontas insulas* neu *Taraconta* a *Taracontas insulas*.¹² Ond nid yw Corsica yn ynys fytholegol, ac nid oes tystiolaeth o gwbl ei bod yn cael ei disgrifio yn y lluosog fel ynnysoedd. Mae rhaniad mawr Corsica sy'n seiliedig ar y dirwedd (*di qua a di la dei monti*) neu'r un sy'n seiliedig ar y parthau

⁸ Petrovskaia, *Medieval Welsh Perceptions of the Orient*, tt. 147–8.

⁹ Rhai fel *Apoli* neu *Zorim* yn y gerdd 'Saint a Merthyron Cred' yn Llyfr Taliesin, gw. *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Cyhoeddiadau Barddas, 1994), tt. 259–63; Andrew Breeze, 'Cruxes in "The saints and martyrs of Christendom"', *SC*, 42 (2008), 149–53.

¹⁰ A.D. Carr, 'Inside the tent looking out: the medieval Welsh world-view', yn *From Medieval to Modern Wales: Historical essays in honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths*, ed. R.R. Davies and Geraint H. Jenkins (Cardiff, 2004), tt. 30–44 (t. 43).

¹¹ Gw. *Paulys Real-Encyclopädie der classischen Altertumswissenschaft*. Neue Bearbeitung begonnen von G. Wissowa, fortgeführt von W. Kroll und K. Mittelhaus. Unter Mitwirkung zahlreicher Fachgenossen hrsg. von K. Ziegler (Stuttgart 1893–1980), s.v.

¹² L.S. Chekin, *Northern Eurasia in Medieval Cartography: Inventory, texts, translation, and commentary* (Turnhout, 2006), t. 225 a 250. Cymh. L.S. Chekin, *Kartografiya khristanskogo srednevekovja VIII – XIII vv.* (Moscow, 1999), t. 204.

dwyreiniol / gorllewinol (sef *banda di dentro a banda di fuori*)¹³ yn amherthnasol yma, wrth gwrs, hyd yn oed pe bai *ynys* y darn yn cyfateb i'r Lladin *regnum* neu'r Saesneg *realme*.¹⁴ Nid yw ystyr arall *ynys*, sef 'dôl ar lan afon, tir gwastad ar fin y dŵr',¹⁵ yn berthnasol yma ychwaith. Felly, y syniad gorau, fel y nododd Petrovskaiia, yw bod *ynyssoed* 'introduced a doublet of which the second item has been lost'. Fe ddigwydd peth tebyg weithiau yn nhrosglwyddiad testunau. Mae'n anodd esbonio ffurf luosog *kestyll Ned* am *Castell-nedd* mewn cronicle Cymraeg heb gyfeirio at y Lladin *castella de Nech* (leg. Neth) *et de Kedwelli* sy'n cyfateb iddi.¹⁶ Hefyd, byddai modd ceisio adlunio rhan olaf yr ymadrodd *ynyssoed Corsica* yn y chwedl ar sail y ffynonellau crai y gellid bod wedi eu defnyddio wrth gyfansoddi 'Culhwch ac Olwen', oni bai mai gair nonsens yn unig ydoedd a gynhwyswyd oherwydd ei fod yn odli.

Ceir testun llawn o 'Culhwch ac Olwen' yn Llyfr Coch Hergest a chopi anghyflawn yn Llyfr Gwyn Rhydderch, ac mae'n amlwg eu bod yn mynd yn ôl at un hen destun coll. Defnyddiwyd *ynysed Corsica* yn yr ail, ac *ynyssoed Corsica* yn y cyntaf, ac nid yw'r gwahaniaeth morffolegol yn y ffurfiau lluosog yn peri unrhyw anhawster.¹⁷ Trafododd Simon Rodway ddyddiad cyfansoddi'r testun yn ddiweddar, gan nodi:

¹³ Cymh. James Boswell, *An account of Corsica, the journal of a tour to that island, and memoirs of Pascal Paoli* (London, 1768), t. 59.

¹⁴ Am yr ystyr, gw. Thomas Jones, 'Teir Ynys Prydein a'e Their Rac Ynys', *B*, xvii (1956–8), 268–9. Am ystyr tebyg i'r Llad. *Insula*, cymh. *Itinerarium Symonis Semeonis ab Hybernia ad Terram Sanctam*, ed. Mario Esposito (Dublin, 1960), t. 24.

¹⁵ Gw. Gwilym Lloyd Edwards, *Ystoria Gwlat Ieuan Vendigeit* (Caerdydd, 1999), t. 45.

¹⁶ Rebecca Try, 'A forgotten Welsh chronology in Aberystwyth, National Library of Wales, MSS 5267B, Peniarth 50, and the Red Book of Hergest', yn *The Chronicles of Medieval Wales and the March. New contexts, studies, and texts*, ed. B. Guy, G. Henley, O.W. Jones, R. Thomas (Turnhout, 2020), tt. 341–73 (tt. 354–5).

¹⁷ Am wahanol ffurfiau lluosog y gair *ynys* mewn Cymraeg Canol, gw. Silva Nurmio, 'Astudiaeth o eiriau Cymraeg a chanddynt fwy nag un ffurf luosog mewn testunau Hen Gymraeg a Chymraeg Canol Cynnar' (M.A., Aberystwyth, 2010), t. 281. Am gymhariaeth o'r testunau o ran eu horgraff a'u morffoleg, gw. Simon Rodway, 'The Red Book text of "Culhwch ac Olwen": a modernising scribe at work', *Studi Celtici*, 3 (2004), 93–161.

We must conclude that the date of Culhwch remains an open question. It may well be that it is a composite text, with different sections having first been written down at different dates.¹⁸

Er hynny oll, yr unfed ganrif ar ddeg / y ddeuddegfed ganrif yw dyddiad bras cyfansoddi ‘Culhwch ac Olwen’, ac yr oedd yr wybodaeth ddaeryddol berthnasol yn hysbys erbyn hynny. Roedd y *Mappae Mundi* yn hysbys yng Nghymru erbyn y drydedd ganrif ar ddeg,¹⁹ ond er bod y map yn Henffordd yn darlunio ynysoedd Môr y Canoldir, gan gynnwys Corsica,²⁰ mae’n annhebygol mai hwnnw oedd ffynhonnell awdur y testun, gan ei fod yn perthyn i gyfnod diweddarach. Awgrymodd John Tatlock fod dylanwad gwaith Sieffre o Fynwy i’w weld ar y rhestrau o enwau lleoedd yn ‘Culhwch ac Olwen’,²¹ ond ni chroesawyd ei farn gan bawb.²²

¹⁸ Simon Rodway, ‘Culhwch ac Olwen’, yn *Arthur in the Celtic Languages: The Arthurian legend in Celtic literatures and traditions*, ed. C. Lloyd-Morgan and E. Poppe (Cardiff, 2019), tt. 67–79 (t. 69); cymh. ei adolygiad o ‘*Y geissaw chwedleu*’: *Proceedings of the 7th International Colloquium of Societas Celta-Slavica*, ed. A. Jones and M. Fomin (Bangor, 2018), yn *Journal of Celtic Linguistics*, 21 (2020), 292–6 (t. 294). Gw. hefyd Simon Rodway, *Dating Medieval Welsh Literature. Evidence from the verbal system* (Aberystwyth, 2013), tt. 168–70.

¹⁹ Cymh. ‘[s]ome Welshmen would also probably have been familiar with the *Mappa Mundi*, which is believed to have reached its home at Hereford cathedral not long after the Edwardian conquest’, gw. Carr, ‘Inside the tent looking out’, t. 33. Yn ôl y farn gyffredin, mae map Henffordd yn dyddio o c.1300.

²⁰ Gw. Scott D. Westrem, *The Hereford Map. A transcription and translation of the legends with commentary* (Turnhout, 2001), t. 420; cymh. Chekin, *Northern Eurasia in Medieval Cartography*, tt. 43, 72–3, 94–5, 105, 113, 132.

²¹ J.S.P. Tatlock, *The Legendary History of Britain: Geoffrey of Monmouth’s Historia Regum Britanniae and its early vernacular versions* (Berkeley, 1950), tt. 195–7.

²² Gw. Idris Llewelyn Foster, ‘Culhwch and Olwen and Rhonabwy’s Dream’, yn *Arthurian Literature in the Middle Ages: A collaborative history*, ed. Roger Sherman Loomis (Oxford, 1959), tt. 31–51 (t. 38); Brynley F. Roberts, ‘Culhwch ac Olwen, the triads, saints’ lives’, yn *The Arthur of the Welsh. The Arthurian legend in medieval Welsh literature*, ed. R. Bromwich, A.O.H. Jarman and Brynley F. Roberts (Cardiff, 1991), tt. 73–95 (tt. 73–4); Simon Rodway, ‘The date and authorship of Culhwch ac Olwen: a reassessment’, *CMCS*, 49 (2005), 21–44 (tt. 38–9).

Nododd Simon Rodway yn ddiweddar, ‘[Idris] Foster discerned no sign of Galfridian influence on *Culhwch*, but other commentators are less certain’.²³ Beth bynnag, nid oes sôn am Gorsica yn *Historia Regum Britanniae* o gwbl a dangosodd Rachel Bromwich a D. Simon Evans, ‘[t]he source for the hear-say knowledge of these countries lay in the works of Isidore and Orosius, which are reflected in the *Imago Mundi*, translated into Welsh in the thirteenth century as *Delw y Byd*’.²⁴ Yn wir, roedd cyfieithiadau Cymraeg o waith Honorius Augustodunensis yn boblogaidd yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, a’r testun yn y llawysgrif hynaf, sef Peniarth 17, yn dyddio i ddegawdau olaf y drydedd ganrif ar ddeg.²⁵ Er hynny, fel y nododd Anthony Carr, ‘[t]he twelfth-century poet Cynddelw Brydydd Mawr knew of *Imago Mundi* before the existence of any of these surviving translations’,²⁶ ac felly, yn ddamcaniaethol, gallai awdur ‘Culhwch ac Olwen’ fod yn gwybod am destun Lladin Honorius. Er hynny, ni chyplyswyd Corsica ag ynysoedd eraill fel y gellir gweld oddi wrth un frawddeg yn yr *Imago Mundi* Lladin, lle ceir *Corsica, a Cors muliere dicta* [...].²⁷ Ond mewn fersiynau eraill o’r cyfieithiad Cymraeg o *Imago Mundi*, yn Llyfr Gwyn Rhydderch er enghraifft, fe geir y cysylltiad *Corsica a Syrene* sy’n cyfateb i *cursita. a sirine*, amrywiad yn Llyfr Coch Hergest.²⁸ *Syrene (sirine)* yma yw *Cirine* Honorius, ac aralleiria’r fersiwn hwnnw y testun gwreiddiol yn sylweddol. Ond mae’n bur amhosibl fod fersiwn yr *ur-gyfieithiad* yn gorwedd o dan *ynyssoed Corsica* ‘Culhwch ac Olwen’: nid oes sôn yn yr ymadrodd am *ynys*, unigol na lluosog, ac yn ôl pob tebyg yr oedd y cyfieithiad yn hwyrach nag amser cyfansoddi’r chwedl. Hefyd, mae

²³ Rodway, ‘Culhwch ac Olwen’, t. 69.

²⁴ Bromwich & Evans, *Culhwch and Olwen*, t. 59. Ond cymh. Petrovskaia, *Medieval Welsh Perceptions of the Orient*, t. 148.

²⁵ Gw. Alexander Falileyev, ‘*Delw y Byd*, Revisited’, *SC*, 54 (2010), 71–8; Natalia I. Petrovskaia, ‘*Delw y Byd*: la traduction médiévale en gallois d’une encyclopédie latine et la création d’un traité géographique’, *Études Celtiques*, 39 (2013), 257–77.

²⁶ Carr, ‘Inside the tent looking out’, t. 33.

²⁷ V.I.J. Flint, ‘Honorius Augustodunensis: *Imago Mundi*’, *Archives d’histoire doctrinale et littéraire du moyen âge*, 49 (1982), 7–153 (tt. 65–6).

²⁸ Lewis & Diverres, *Delw y Byd*, t. 98. Am destunau diwygiedig o’r cyfieithiad, gw. y stema yn Petrovskaia, ‘*Delw y Byd*’, 271–2.

***insulae Corsica et Cirine* yn annichonadwy yn y testun Lladin gwreiddiol.

Felly, erys gwaith Isidore neu Orosius fel tarddiad *ynyssoed Corsica* ‘Culhwch ac Olwen’, fel y nododd dau olygydd y testun. Er hynny, darn byr yn unig am yr ynys sydd yn *Etymologiae* gan Isidore (XIV.vi.41–2) heb gysylltiad testunol agos ag ynyssoedd eraill, er y rhoir yma bellter rhwng Corsica a Sardinia. Yn ddamcaniaethol, fodd bynnag, fe all y dechrau fod yn berthanasol: *Corsicae insulae exordium incolae Ligures dederunt appellantes eam ex nomine ducis. Nam quaedam Corsa nomine Ligus mulier [...]*.²⁹ Mae’r geiriau Lladin *insula* a *Corsica* yma yn y cyflwr genidol unigol yr un fath â ffurfiau enwol lluosog. Felly, mae’n bosibl i’r awdur gymysgu’r ddwy ffurf wrth iddo ddarllen darn Isidore, a defnyddio’r ffurf luosog Gymraeg *ynysseid* / *ynyssoed* i gyfieithu’r ffurf enidol unigol Ladin *insulae*. Ond, a bwrw bod hynny’n wir, disgwyliid *Corsica* yn y ffurf luosog hefyd yn y cyfieithiad. Wrth gwrs, nid oes sôn am ffurf luosog yr enw byth, ond yn ffurfiol ceir rhai enwau gydag *-a* derfynol mewn Cymraeg Canol, a hefyd gyda gwahanol ffurfiau lluosog, cymharer *coffa* (*coffau*, *coffeion*, *coffaon*, *coffâu*), *morua* (*morfâu*, *-oedd*, *morueid*) neu *pla* (*plaoedd*, *plâu*, *pla(e)au*, *plaoedd*, *plaon*).³⁰ Felly, cyfetyb ***ynyssoed Corsicau* i *Corsicae insulae*, ond mae’n bosibl mai **Corsic[a]e insule* (*vel sim.*) oedd darlleniad y darn mewn llawysgrif ganoloesol Ladin a gamddehonglwyd gan awdur y chwedl. O ganlyniad, gallai *Etymologiae* gan Isidore fod wedi ei ddefnyddio yma, ond dylid cymhwyso’r esboniad yn betrus a chyda sawl cafeat.

Ar y llaw arall, cynigia *Historiae Adversus Paganos* gan Orosius ddarn cyson, yn y bennod sy’n dechrau gyda *Sardinia et Corsica insulae*.³¹ Gallai’r awdur fod wedi cyfieithu’r Lladin

²⁹ Cymh. ‘Ligurian settlers founded the island of Corsica, naming it after the one who guided them there, a certain Ligurian woman by the name of Corsa [...]’, Stephen A. Barney, W.J. Lewis, J.A. Beach, and Oliver Berghof, *The Etymologies of Isidore of Seville* (Cambridge, 2010), t. 297.

³⁰ Nurmio, ‘Astudiaeth o eiriau Cymraeg’, tt. 36–7 a 170, 246, 254.

³¹ *Orose: Histoires contre les païens*, vol. 1, ed. Marie-Pierre Arnaud-Lindet (Paris, 1990), t. 40 (t. 101. *Sardinia et Corsica insulae paruo fretu hoc est milium XX diuiduntur. Ex quibus Sardinia habet a meridie contra Numidiam*

insulae gyda'r ffurf luosog *ynyssed* / *ynyssod* a pharhau gyda *Corsica* ar ôl gadael *Sardinia* allan. Roedd *Sardinia* yn hysbys mewn testunau diweddarach, wrth gwrs, fel 'Delw y Byd' o Lyfr Gwyn Rhydderch³² neu 'Marwolaeth Mair'.³³ Mae'n debygol i awdur y chwedl ddefnyddio'r darn o *Historiae Adversus Paganos* fel ei ffynhonnell, gan hepgor *Sardinia* a chadw ffurf luosog *ynys*. Efallai fod yma dystiolaeth fod yr awdur wedi ymgynghori â *Historiae Adversus Paganos*. At hynny, nid ag ynys *Corsica* yn unig yr ymwelodd y Brenin Arthur a Glewlwyd Gafaelfawr yn ôl y traddodiad Arthuraidd Cymraeg, ond ag ynys *Sardinia* hefyd.

2. *Hengoed* 'newydd' yn Naugleddau?

Yn ddiweddar, cyhoeddodd J.B. Smith destun o groniel Grigor o Gaer-went ynghyd â thrafodaeth fanwl. Yn y testun (a'r cyfieithiad Saesneg) ceir darn 'sub anno 1129' sy'n sôn am rodd i Abaty Pedr Sant yng Nghaerloyw:

Wido Flandrensis ecclesiam sancti Mariae de Dengledi, terram montis sanctae Mariae, et sylvam Dengort.
'Wizo of Flanders granted the church of St. Mary in Daugleddau, land of the mountain of St. Mary, and the forest of Dengort'.³⁴

Wido Flandrensis, wrth gwrs, yw Wizo Flandrensis a ymsefydlodd gyda charfan o wŷr Fflandrys ym Mhenfro yn y ddeuddegfed ganrif,³⁵ a nododd Smith fod y dyfyniad yn cyfateb i ran o *Historia*

Caralitanos, contra Corsicam insulam hoc est septentrionem uersus habet Ulbienses).

³² *Sardinia*, Lewis & Diverres, *Delw y Byd*, t. 98.

³³ Cymh. *escob eglbys sardinei* yn J. Morris Jones, John Rhŷs, *The Elucidarium and other tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi* (Oxford, 1894), t. 77.

³⁴ Joshua Byron Smith, 'The Chronicle of Gregory of Caerwent', yn *The Chronicles of Medieval Wales and the March. New contexts, studies, and texts*, ed. B. Guy *et al.*, tt. 289–340 (t. 310 a 329).

³⁵ Gw. Lauran Toorians, 'Wizo Flandrensis and the Flemish settlement in Pembrokeshire', *CMCS*, 20 (1990), 99–118; Kenneth Murphy, 'The castle and borough of Wiston, Pembrokeshire', *Arch Camb*, 144 (1995), 71–102 (tt. 71–6).

monasterii Sancti Petri Gloucestriae.³⁶ Mae'r darn hwn yn hwy ac yn fwy manwl, ond yn lle enw'r fforest *Dengort* fe geir *Gengod*.³⁷ Nid oes sôn am yr enwau hyn, hyd y gwn i, mewn trafodaethau toponymig na hanesyddol am Sir Benfro,³⁸ ac ni chynnwys yr *Historical Atlas of Pembrokeshire* diweddar na *Gengod* na *Dengort*.³⁹ Seiliwyd yr argraffiad o *Historia monasterii Sancti Petri Gloucestriae* gan William Hart ar lawysgrifau Coleg y Frenhines, Rhydychen 367, a Llyfrgell Brydeinig Cotton Domitian A VIII, a thra gorffennodd Cronicl Grigor o Gaer-went yn 1290 gyda marwolaeth ei awdur, mae'r unig destun ohono sydd ar glawr yn gopi o'r unfed ganrif ar bymtheg gan yr hynafiaethwyr Saesneg Laurence Nowell (1530–c.1570) a William Lambarde (1536–1601).⁴⁰ Er hynny, mae'n annhebygol fod *Dengort* yn wall am *Gengod* am fod Laurence Nowell, a gopiodd y cronicl, yn drawsysgrifiwr ffyddlon.

Mae'n hysbys fod gwŷr Fflandrys mewn dau gantref yn Sir Benfro yn amser Wizo, sef Rhos a Daugleddau, a chrybwyllodd Grigor o Gaer-went yr olaf o'r ddau hyn. Yn wir, mae'r *terra montis sanctae Mariae* sy'n cyfateb i *terra quae vocatur mons Sanctae Mariae* yn yr *Historia* nid nepell o Wiston / Cas-wis, y castell a godwyd gan Wizo ei hun ac sy'n ymgorffori ei enw.⁴¹ Mae tystiolaeth amdano ers y ddeuddegfed ganrif (cymharer hefyd *terra*

³⁶ Smith, 'The Chronicle of Gregory of Caerwent', t. 310.

³⁷ *Wydo Flandrensis dedit omnes decimas, et ecclesias totius terrae suae, et decimam piscaturae suae et locum ad faciendam piscaturam, et terram ad opus piscatoris qui eam servabit juxta castellum Clys. Dedit etiam terram quae vocatur mons Sanctae Mariae, et silvam quae vocatur Gengod*, gw. *Historia et cartularium monasterii Sancti Petri Gloucestriae*, ed. William Henry Hart, volume 1 (London, 1863), t. 108. Am bysgodfeydd yr ardal, cymh. J. Rogers Rees, 'Slebech commadery and the Knights of St. John', *Arch Camb*, 14 (1897), 85–107, 197–228, 261–84; 15 (1898), 33–53; 16 (1899), 220–34, 283–98, ac am *Clys* am *Gwys*, *Arch Camb*, 14 (1897), 216.

³⁸ B.G. Charles, *The Place-names of Pembrokeshire* (Aberystwyth, 1992); cymh. Nerys Ann Jones, 'An index to the discussions on place names by Henry Owen and Egerton Phillimore in *The description of Pembrokeshire by George Owen of Henllys*', *Nomina*, 15 (1991–2), 107–24.

³⁹ David W. Howell, *An Historical Atlas of Pembrokeshire* (Haverfordwest, 2019), t. 49.

⁴⁰ Llyfrgell Brydeinig Cotton Vespasian A V.

⁴¹ Murphy, 'The castle and borough of Wiston, Pembrokeshire', tt. 77–83; am yr enw, gw. Charles, *The Place-names of Pembrokeshire*, t. 456.

de s[anc]ta Maria Bergha, terra de Marebergh, ac ati, a elwir bellach yn Merryborough).⁴² Yr oedd Sir Benfro yn enwog am ei fforestydd gynt, a nododd Richard Fenton (1747–1821) yn ei ddisgrifiad o ardal Hwlffordd, er enghraifft, ‘extensive woods, some veterans of noble growth still remaining, which tradition represents as having been of such extent, so tangled and so foresty, that it became the harbour of wild beasts, and was infested by a basilisk’.⁴³ Er y ceir rhai o enwau coedwigoedd Daugleddau mewn testunau canoloesol, a rhagor mewn testunau diweddarach, nid oes sôn am *Dengort* neu *Gengod* yma. Mae’n sicr fod yr enwau wedi eu hystumio, ac mae’n bur debygol eu bod o darddiad Cymraeg. Ni fwriedir rhoi cynnig ar adlunio’r ffurf wreiddiol am fod modd trin y manylion seinegol a graffegol mewn sawl ffordd a hynny yn ei dro yn arwain at sawl dyfarniad. Ond gwerthfawr fyddai nodi un lle yn Naugleddau a all fod yn berthnasol.

Ardystir yr enw lle Hengoed am y tro cyntaf fel *Hencott* yn 1521. Yn ôl B.G. Charles, enw Saesneg oedd hwn yn wreiddiol, *henn* a *cot*, sef ‘a shed for keeping hens or fowls’ ond dylanwadwyd arno wedyn gan *hen* a *coed* y Gymraeg.⁴⁴ Nododd Charles fod y ffurf *hencote* Saesneg Canol wedi ei gofnodi er 1425, ond ceid y gair cyfansawdd cyn gynhared â 1371 yn ôl y geiriadur Saesneg Canol.⁴⁵ Mae Hengoed ei hun wedi ei leoli yng nghyffiniau Wiston / Cas-wis gerllaw *terra montis sanctae Mariae*, a dwg yr enw (*Hencott* 1521, *Hencoed* 1696, *Hencood* 1813) y ffurf *Gengod* yn *Historia monasterii Sancti Petri Gloucestriae* i gof yn syth. Hefyd, coed yw *Gengod* yn yr *Historia*, ac mae’n bur bosibl mai *Hengoed* oedd yr enw yn wreiddiol, enw sy’n gyffredin drwy Gymru;⁴⁶ nid annichon fod sawl Hengoed arall yn yr ardal. Beth bynnag, fe all rhan olaf *Gengod* guddio *co(e)d*, gyda’r llythyren gyntaf wedi ei threiglo’n feddal, a cheir *G-* yn lle *H-* yn y

⁴² Charles, *The Place-names of Pembrokeshire*, t. 458.

⁴³ Richard Fenton, *A Historical Tour through Pembrokeshire* (London, 1811), tt. 232–3.

⁴⁴ Charles, *The Place-names of Pembrokeshire*, t. 457.

⁴⁵ Hans Kurath, Sherman M. Kuhn and Robert E. Lewis, *Middle English Dictionary* (Ann Arbor, 1954–2001 [= MED], s.v. *hen*).

⁴⁶ Cymh. Hywel Wyn Owen and Richard Morgan, *Dictionary of the Place-Names of Wales* (Llandysul, 2007), t. 191 am rai enghreifftiau. Yn ddiddorol iawn, cyfeirir at y sillafiad *Hengott* yn y drafodaeth ar Hengoed, Morgannwg.

rhan ddechreuol. Yn sicr, nid cyfnewid seiniau ffrithiol dan ddylanwad Fflemineg sydd yma,⁴⁷ ond gwall copïo, a chymharer g-y'n y rhan olaf. Mae'n amlwg hefyd fod *Gengod* yn cyfateb i *Dengort* o Gronicl Grigor o Gaer-went. Er ei fod wedi ei gofnodi yn wahanol, mae'n bosibl ei egluro. Nid yw *-t* am *-d* yn creu anhawster; efallai fod *-r-* wedi disodli *-e-* yn y gair *coed* gwreiddiol sydd yn eisiau yn nhestun yr *Historia*. Mwy anodd yw *D-* yn lle *H-* (*G-* yn yr *Historia*), ond mae'n werth nodi problemau gyda llythrennau blaen rhai enwau estron yn y Cronicl. Fel y nododd J.B. Smith yn ei argraffiad o Gronicl Grigor o Gaer-went, cyfetyb *Lockhold* yma i *Bocholt* yr *Historia*, *Sabrihtsii* i *Tabriithri*, a *Camme* i *Thamme*.⁴⁸

Mynnodd Richard Fenton, flynyddoedd lawer yn ôl, wrth drafod presenoldeb gwŷr Fflandrys ym Mhenfro, 'we have nothing in detail, either as to the manner of their arrival, the nature of their settlement, or the number and quality of their leaders'.⁴⁹ Nid oes rhagor o wybodaeth am eu heiddo ym Mhenfro ychwaith, ar wahân i'r ffaith ei bod yn debygol fod coedwig *Gengod* / *Dengort*, sef yn ôl pob tebyg **Hengoed*, yn perthyn iddynt. Yn ei waith ar *Historia et cartularium* Abaty Pedr Sant yn Nghaerloyw cwynodd W.H. Hart am yr 'identification of names of places in Gloucestershire, a task oftentimes of considerable difficulty',⁵⁰ ac yn yr un modd rhaid cydnabod nad oes modd lleoli'r fforest yn Naugleddau yn fanwl.

3. Natabria yn *Epitome Historiæ Britannicæ* o'r Llyfr Teg

Ceir dau gopi llawn o *Epitome Historiæ Britannicæ* yn llawysgrifau'r Llyfrgell Brydeinig, sef Cotton Titus D. xxi (dyddiad 1429) a Cotton Nero A. iv. Mae'r olaf yn perthyn i ddiwedd y bymthegfed ganrif neu ddechrau'r unfed ganrif ar

⁴⁷ Am g- mewn Fflemeg Canol, gw. Adolphe van Loey, *Middel nederlandse spraakkunst. II Klamkleer* (Groningen, 1949), tt. 105–9. Am enwau lleoedd Fflemeg yr ardal, cymh. Toorians, 'Wizo Flandrensis and the Flemish settlement in Pembrokeshire', 113–14.

⁴⁸ Smith, 'The Chronicle of Gregory of Caerwent', tt. 308 a 313.

⁴⁹ Fenton, *A Historical Tour through Pembrokeshire*, t. 203.

⁵⁰ Hart, *Historia et cartularium monasterii Sancti Petri Gloucestricæ*, t. lxix.

bymtheg, ond mae'n gopi o gronicl a ysgrifennwyd yn 1399.⁵¹ Astudiodd Diana Luft y testun talfyredig o *Epitome Historiæ Britannicæ* a gedwir yn Peniarth 32 (sef y Llyfr Teg, dyddiad 1404), ei olygu a pharatoi cyfieithiad Saesneg ohono. Dyma'r rhan (§ 24) sy'n sôn am ddeuddeg talaith Affrica:

Infra *secundam partem* que dicitur Affrica sunt XII prouincie, videlicet Libia, Cirini, Pentapolis, Ethiopia, Tripolitana, Bifanna, Getulia, Natabria, Numedia, Samaria, Sirtes maiores *et* minores.⁵²

Yn ôl Luft, '[t]he description of the division of the world between the sons of Noah [...] follows the text of the 'Gildasian' recension of *Historia Brittonum* very closely, and the list of the countries contained in the three divisions of Asia, Africa and Europe is identical to the lists found in that text, as well as in Flores Historiarum'.⁵³ Dyfynnodd restr gyfatebol o daleithiau Affrica yr *Historia Brittonum* o lawysgrif Caergrawnt:⁵⁴ *Liddia, Cyrini, Pentapolis, Ethiopia, Tripolitana, Bizantia, Getulia, Natabria, Numedia, Samaria, Sirtes maiores et minores*,⁵⁵ a chymharer *Libya*,

⁵¹ Gw. Ben Guy, 'Epitome Historiæ Britannicæ' yn *Croniclau Cymreig* <<http://croniclau.bangor.ac.uk/hist-britanniae.php.cy>> a chymh. 'Appendix: List of the chronicles of Medieval Wales and the March', yn *The Chronicles of Medieval Wales and the March. New contexts, studies, and texts*, ed. B. Guy et al., tt. 421–9 (t. 426).

⁵² Diana Luft, 'The NLW Peniarth 32 Latin Chronicle', *SC*, 44 (2010), 47–70 (t. 67). Cyfieithiad Saesneg: '[w]ithin the second part, which is called Africa, there are twelve provinces, namely: Libya, Cyrene, Pentapolis, Ethiopia, Tripolitania, Byzacena, Gaetulia, Natabria, Numidia, Samaria, Syrtis major and Syrtis Minor' (t. 69).

⁵³ Luft, 'The NLW Peniarth 32 Latin Chronicle', t. 54. Am yr olaf, gw. Lisa Deam, 'Mapping the Past: The Fleur des Histoires (Brussels, Bibliothèque Royale, MS. 9231–9232) in the context of fifteenth-century Burgundian historiography' (Ph.D., Prifysgol Chicago, 2001).

⁵⁴ Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt MS Ff.1.27 (diwedd 12g. neu ddechrau'r 13g.).

⁵⁵ Luft, 'The NLW Peniarth 32 Latin Chronicle', t. 67, gyda chyfeiriad at Theodor Mommsen, *Monumenta Germaniæ Historica, Scriptores, Auctores Antiquissimi*, 13: *Chronica Minora saec. IV. V. VI. VII* (Berlin, 1891–2), iii, t. 159.

*Cirmi, Pentapolis, Æthiopia, Tripolitana, Byzantia, Getulia, Natabria, Numidia, Samaria, Syrtes, majores et minores.*⁵⁶

Nododd Luft, '[t]he name 'Natabria' is not meaningful to me',⁵⁷ ac agraffodd W.J. Rees yr enw sy'n cael ei ddefnyddio yn nhestun cyfatebol yr *Epitome Historiæ Britannicæ* cyflawn yn Llyfrgell Brydeinig Cotton Llawysgrif Titus D. xxii fel *Nataliria*.⁵⁸ Ond mae'n hysbys fod Natabria, sef un o daleithiau Affrica, wedi ei lleoli i'r de o Dripolitania,⁵⁹ ac olrheinir enw'r dalaith i enw pobl y cyfeiriodd Orosius atynt yn ei *Historia adversus paganos* (I. 2. 90).⁶⁰ Yn wir, enwodd Orosius *Nathabres* (amr. *Natabres, Nabazares, Nabasares*) ymhlith pobloedd eraill fel *Gaetulos a Garamantas* yng Ngogledd Affrica,⁶¹ a chrybwyllodd Aethicus Ister *Natabres* hefyd ochr yn ochr â *Celthigageni et Aethiopes a Garamantas ac Getuliam*.⁶² Gan hynny, lleolir *Natabria* yng

⁵⁶ Chet Van Duzer and Sandra Sáenz-López Pérez, 'Tres filii Noe diviserunt orbem post diluvium: the world map in British Library Add. MS 37049', *Word & Image: A Journal of Verbal/Visual Enquiry*, 26 (2009), 21–39 (t. 29, cyfeiriad t. 37). Dyfynnwyd hefyd rannau cyfatebol mewn llsgrau. eraill, fel Llyfrgell Brydeinig Arundel 507 lle y ceir 'Liddia, Cirini, Pentapolis, Ethiopia, Tripolitania, Bizancia, Getulia, Natabria, Numedia, Samaria, Sirtes Maiores et Minores' (ar d. 37).

⁵⁷ Luft, 'The NLW Peniarth 32 Latin Chronicle', t. 69 n. 154.

⁵⁸ W.J. Rees, *Lives of the Cambro-British Saints* (Llandoverly, 1853), t. 286.

⁵⁹ David J. Mattingly, *Tripolitania* (London, 1995), t. 43. Gw. hefyd y map yn R.G. Goodchild, 'Mapping Roman Libya', *The Geographical Journal*, 118/2 (1952), 142–52 (t. 144).

⁶⁰ Gw. Van Duzer & Sáenz-López Pérez, 'Tres filii Noe diviserunt orbem post diluvium', t. 29 ac Antti Lampinen, 'Cultural artefacts in transit: notes on the transmission and translation of ethnonyms in the Greco-Roman Eastern Mediterranean', yn *Translation and Transmission*, ed. J. Hämeen-Anttila and I. Lindstedt (Münster, 2019), 139–79 (t. 164).

⁶¹ *Orose: Histoires contre les païens*, t. 35. Cymh. *Natabres* yn *The Old English Orosius*, ed. Janet Bately (London, 1980), t. 20.

⁶² Gw. *The Cosmography of Aethicus Ister: Text, translation, and commentary*, ed. Michael W. Herren (Turnhout, 2011), t. 22 a 212. Ystyrier tystiolaeth gynnar debygol arall (fel *Nabathrae* gan Ptolemy (4. 6. 6) a *Niteris natio* gan Pliny, *Historia naturalis*, 5.37), gw. Mattingly, *Tripolitania*, t. 43. Gw. hefyd yma am *Gaetuli* (t. 46) a *Garamantes* (tt. 53–7) sy'n cyffinio yn y testun. Trafododd Andy Merrills ddaearyddiaeth hanesyddol y diriogaeth yn oes y Rhufeiniaid yn 'African geography in the Triumph of Cornelius Balbus', yn *De Africa Romaque. Merging cultures across North Africa*, ed. Niccolo Mugnai, Julia Nikolaus and Nicholas Ray (London, 2016), tt. 121–29, yn enwedig tt. 122–3.

Ngogledd Affrica i'r de o Dripolitania, a cheir sôn am y lle mewn *mappae mundi* canoloesol hefyd.⁶³

Sylwodd Luft hefyd, ‘‘Samaria’ may be an error: this name normally refers to an area in the Middle East rather than Africa’.⁶⁴ Heb fanylu yn ormodol, y mae’n bosibl nodi bod rhai enwau lleoedd Asiaidd, yn ogystal â rhai Ewropeaidd, wedi eu trawsddodi i Affrica am wahanol resymau; down o hyd i gyfeiriadau at y Medi (‘the Medians’) neu Athen.⁶⁵ At hynny, rhestrowyd Samaria ymhlith *provinciae Affrica* ar rai mapiau canoloesol, ac yn y ‘Map Vitellius’⁶⁶ ceir brawddeg debyg, sydd hefyd yn crybwyll Natabria: *In Affrica sunt XII provinciae: Libia, Cirini, Pentapolis, Ethiopia, Tripolitania, Bizantium, Getulia, Natabria, Numedia, Samaria, Sirtes maiores et Sirtes minores.*⁶⁷

4. Machynlleth ar Hafren

Yn ei ddisgrifiad o *Rivers in Wicestershire*, sef afonydd Swydd Gaerwrangon, ysgrifennodd yr hynafiaethydd Saesneg John Leland (c.1503–1552) hyn:

Severne risithe in a hill cawlyd
Plimlimmon. So to Cair Sews, famous in
name, but in dede a pore thrwge faire.

⁶³ Am y Natabres ar fap Henffordd, gw. Westrem, *The Hereford Map*, t. 346 (‘the three peoples [Getuli, Natavres, et Garamantes] inhabited separate parts of the African interior of what is now southern Tunisia and western Libya’). Cymh. Chekin, *Kartografiya khristanskogo srednevekovja*, t. 50 (llsgr. Bodley ll. 527, f. 189v., 11g.) a 57 (Llyfrgell Brydeinig, Cotton Vitellius ll. A.XII, f. 64, 10g.).

⁶⁴ Luft, ‘The NLW Peniarth 32 Latin Chronicle’, t. 69 n. 154; ceir yr un ffurf yn Cotton Titus D. xxii (Rees, *Lives of the Cambro-British Saints*, t. 286) ac yn yr ailolygiad Gildasaidd o *Historia Brittonum* (Mommsen, *Monumenta Germaniae Historica*, iii, t. 159).

⁶⁵ Gw. Van Duzer, Sáenz-López Pérez, ‘*Tres filii Noe diviserunt orbem post diluvium*’, t. 24 a 36. Am driniaeth debyg, cymh. nodyn 198 gan Michael W. Herren (*The Cosmography of Aethicus Ister*, t. 75).

⁶⁶ Llyfrgell Brydeinig, Cotton Vitellius llsgr. A.XII, f. 64, o’r 11g.

⁶⁷ Chekin, *Kartografiya khristanskogo srednevekovja*, tt. 56–7; cymh. t. 50 am *Numidia, Samaria, Sirtes maiores et minores* yn Bodley llsgr. 527. Cymh. hefyd e.e., Lan Lipscomb, ‘A Latin geography and a Middle English epitome of world and English history’, *Manuscripta*, 40 (1996), 19–28 (tt. 19–21, 23 a 25).

From Mahenclift to Llanidlas a good village, to Newton, and so rinnith within a mile of Montgomeryke to the Walche Pole, and thens passithe within halfe a mile of Ponsbyri College to Shrobbesbyri, to Wrekcester alias Rokecestar, to Bridgnorthe, to Wicester, to Twekesbyry, to Glocester, etc.⁶⁸

Nododd John Chandler fod Llanidloes ‘on the Severn but above Caersws’, a hefyd adnabu yn gywir mai *Caer Sews* oedd sillafiad Leland o’r enw lle olaf.⁶⁹ Yn wir, sylwodd L.T. Smith, ‘Stow’s MS. has *llews* (which Hearne read *Clews*), with a correction, S being written over the ll. The place is doubtless *Caer Sws*, an old Roman station’, ac mae’n werth nodi bod enw’r dref yn cael ei sillafu *-llews* yn lle *-s(e)ws* mewn sawl man arall gan Leland; cymharer *poor Cairllews* a *betwixt Cairllews and Mahenclif*.⁷⁰ Nid oes sylw ar *Mahenclift* gan L.T. Smith ond cysylltodd Chandler ef â Machynlleth, gan ychwanegu, ‘but if so Leland is mistaken’.

Gwnaeth John Leland sawl cam gwag o ran daeryddiaeth a thopograffeg.⁷¹ Yn ôl John Bale, yr oedd ei deithiau trwy Loegr a Chymru yn 1535–43 ‘a verye laboryouse journey, ouer all the

⁶⁸ L.T. Smith, *The itinerary of John Leland in or about the years 1535-1543*, volume 5 (London, 1910), t. 9. Am bwysigrwydd afonydd yn ei ddisgrifiad, gw. John Scattergood, ‘John Leland’s Itinerary and the identity of England’, yn *Sixteenth-century Identities*, ed. A.J. Piesse (Manchester, 2000), tt. 58–74 (t. 67); cymh. hefyd Jennifer Summit, ‘Leland’s *Itinerary* and the remains of the medieval past’, yn *Reading the Medieval in Early Modern England*, ed. Gordon McMullan and David Mathews (Cambridge, 2007), tt. 159–76 (tt. 164–5).

⁶⁹ John Chandler, *John Leland’s Itinerary: Travels in Tudor England* (Stroud, 1993), t. 517. Am yr enw, gw. Richard Morgan, *A Study of Montgomeryshire Place-names* (Llanrwst, 2001), tt. 44–5. Cymh. hefyd ‘Severn [...] takes its course northward by *Lhan Idlos*, and *Tre’newydh* or *New town*, and *Caer Sws*’, William Camden, *Britannia*, volume 2 (London, 1722), t. 779, gyda *Chaersws* yn y lle anghywir.

⁷⁰ L.T. Smith, *The itinerary in Wales of John Leland* (London, 1906) [=It.], tt. 54–5.

⁷¹ Mae llawer o waith arno ar gael, cymh. G.O. Osborne, ‘Notes on the origin of the place name “Risca”’, *Gwent Local History*, 67 (1989), 3–10; Andrew Breeze, ‘John Leland’s *Caer Urfe*: Tynemouth or Chepstow?’, *Voprosy onomastiki*, 14, (2017), 56–65.

realme euery waye, both by see, and by lande, by the space of vi. Yeares', ac yng ngeiriau Leland ei hun, 'there is almost neyther cape nor baye, hauen, creke or pere, ryuer or confluence of ryuers, breches, washes, lakes, meres, fenny waters, mountaynes, valleys, mores, hethes, forestes, woodes, cities, burges, castels, pryncypall manor places, monasteryes, and colleges, but I haue seane them, and noted in so doynge whole worlde of thynges verye memorable'.⁷² Yn ôl y disgwyl, ceir cymysgfa o leoedd yn ei deithlyfr, ond mae'n sicr fod Leland yn sôn am Fachynlleth yn y darn hwn. Crybwyllodd ef sawl tro fel *Mahenclif* (*It.* 54, 55, 77, 122, 123) a hefyd gyda'r sillafiad amrywiol *Mahenthle* (*It.* 12). Y mae'n sicr fod *Mahenclift* yn ei restr o afonydd Swydd Gaerwrangon yn dynodi'r un lle.⁷³ Ond pam y lleolodd Leland Fachynlleth ar lan afon Hafren? Mae angen esbonio hyn.

Yn ei ddisgrifiad o Gymru ni nododd Leland safle Machynlleth yn fanwl: mae 'a xvi. Walche miles from Montgomeri' (*It.* 12), 'it is xvi. miles betwixt Cairllews and Mahenclif' (*It.* 55), a chymharer 'Strateflur is xx. Walsch miles from Mahenclif' (*It.* 122) a 'Mahenclif in Poisland vi. miles from Aberdeui' (*It.* 123). Achlysurol yw'r cyfeiriadau at afon Hafren hefyd: 'Kenlet a preaty broke in the vale by Montgomerike. His cowrce is about vii. miles in lengthe, and enterithe into Severne abowte a mile from Chirbyri Priory' (*It.* 54) neu 'Strate Marcelle a Abbey. White Monkes in Lowe Powis 2. mils from the Walsche Poole, hard on the farthar banke of Severne' (*It.* 55). Dynodir safle'r afon yn fras: 'There is not ii. miles betwixt the streames of Wy and Severn', ac enwodd Leland rai trefi ar ei glannau fel Llanidloes a Llandinam ('Llan Ydlas on Severn' a 'Llan dynnan iiii. miles of on Severn' (*It.* 125). Ni leolir y Drenewydd yn fanwl ar lannau'r afon a chymharer '[a]nd like in the v. miles to Newton, wher at one side of the toune cummith a litle brooke ynto Severn' (*It.* 125). Ar y llaw arall cafodd achos i gyfeirio at *Severn(e) se*, sef Môr Hafren (y Bristol Channel) ar sawl achlysur (a gweler y

⁷² *The laboryouse journey & serche of John Leylande for Englandes antiquitees geven of hym as a Newe Years gyfte to Kyng Henry the VIII in the xxxvii. yeare of his reygne, with declaracyons enlarged by Johan Bale.* Reprinted, with introductory note by W.A. Copinger (1895), tt. 60–1.

⁷³ Am sillafiadau eraill o'r enw, cymh. Morgan, *A Study of Montgomeryshire Place-names*, tt. 128–9.

sylwadau sy'n dilyn isod). Nid aeth Leland mor bell â Phumlumon: 'if I had goone from thens a mile of to a hy hille I might have sene Penlinmon' (*It.* 119). Awgrymwyd ei fod wedi cael gwybodaeth am yr adran hon o ffynonellau eilaidd ac anuniongyrchol ac enwodd Leland ei hun ryw Mr Rouland Griffith (*It.* 90) fel tarddle'r wybodaeth;⁷⁴ yr un gŵr a roes iddo wybodaeth am Ynys Môn (*It.* 128).

Mae'n amlwg fod cwrs cychwynnol Hafren yn hysbys i ffynhonnell neu ffynonellau Leland yng Nghymru. Yn wir, yr oedd yn hysbys y tu hwnt i Gymru hefyd: cofnododd William Worcestre yr wybodaeth ganlynol a gafodd gan *Sir Roger Kenerston of Shropshyre* yn 1478:

The hede of the water of Severn begynneth in a hye hill called Plimlvmon and from the seid hille hit ranneth down to Lanydlos and from thens to Kaersoyes and from thens to the Newe town of Kedewen, and from thens to the brigge of Aber Miwl, and from thens to Botynton, is brigge bisede the poole per vnum miliare citra villam de Pole.⁷⁵

Er hynny, mae Machynlleth, 'the second towne of Mongomerikeshire' yn ôl Leland (*It.* 12), gerllaw afon Dulas sy'n aberu i afon Dyfi, ac nid i afon Hafren. Fel y nododd Chandler (*loc.cit.*), lleolwyd Caersws ar ôl Llanidloes yn rhestr Leland o afonydd Swydd Gaerwrangon. Ond mae'n debygol fod Leland yn gwybod am y cysylltiad daeryddol rhwng Machynlleth ac afon Dyfi ('Mahenclif in Poisland vi. miles from Aberdeui' *It.* 123), ac yn ymwybodol hefyd fod Llanidloes yn nes at darddiad afon Hafren ('Llanidelas is about a iiii. mils from the hede of Severne' *It.* 12). Nid yw'n cyfeirio'n fanwl o gwbl at Gaersws yn ei deithlyfr Cymreig. Rhaid mai llithriad ar ei ran sy'n esbonio'r hyn a nodir

⁷⁴ Derek Williams, *An Epic Tudor Journey: John Leland's itinerary of Northern Wales* (Pwllheli, 2008), tt. 93–4 a 107–8.

⁷⁵ J.H. Harvey, *William Worcestre, Itineraries* (Oxford, 1969) [= *It.W.*], t. 66 a 68. Am fapiau diweddarach o'r ardal, gw. Ieuan E. Jones, 'Montgomeryshire on old maps', *Montgomeryshire Collections*, 75 (1987), tt. 9–28.

am gwrs yr afon yn *Rivers in Wicestershire*. Wrth gwrs, ac yntau heb deithio yng nghyffiniau tarddiad afon Hafren, a heb dderbyn gwybodaeth gywir gan ei hysbyswyr, mae'r camgymeriad yn ddealedig. Ond mae un posibilrwydd arall i'w ystyried.

Fel y mynegodd T.D. Kendrick yn ei ddisgrifiad o waith hynafiaethol Leland, 'his fanatical adoration of Henry VIII and Tudor England repeatedly derived him of judgement and good humour'.⁷⁶ Trafododd Caroline Brett rai agweddau ar wladgarwch Tuduraidd Leland;⁷⁷ mae'n bur amlwg fod gwreiddiau'r teulu brenhinol hwn yn bwysig i'r hynafiaethydd, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei deithlyfrau, gan gynnwys ei deithlyfrau Cymreig. Sonnir am Harri VII, y brenin cyntaf o linach y Tuduriaid, sawl tro (*It.* 43 a 59), ac nid yn ystod y teithiau yng Nghymru yn unig. Cyfeiriodd Leland at Harri yma ac acw yn ei deithlyfrau am Loegr, ac wrth gwrs gellid olrhain tras y Tuduriaid yn syth yn ôl i'r Brenin Arthur! Yng Nghymru, yng Nghastell Penfro, gwelodd Leland ei hun 'the chaumbre wher King Henri the VII. was borne' (*It.* 116). Cyn iddo ddechrau ar ei daith drwy Gymru, cafodd Leland restr o'r teuluoedd yng Nghymru a gefnogodd Harri Tudur ym mrwydr Maes Bosworth: 'Bosworth Field was then a distant 50-year-old memory but the sons of those who had fought there were anxious to show their continued support of the Tudor monarchy under Henry VIII'.⁷⁸ Nododd Derek Williams hefyd (*loc.cit.*),

[w]hen Leland set out on his visit to northern Wales in 1536–9 on the commission of Henry VIII he had full knowledge of the crucial episode leading up to Bosworth,

⁷⁶ T.D. Kendrick, *British Antiquity* (London, 1950), t. 49.

⁷⁷ Caroline Brett, 'John Leland, Wales, and Early British History', *CHC*, 15 (1990), 169–82 (tt. 170–1).

⁷⁸ Williams, *An Epic Tudor Journey*, t. 15. Yn yr un modd mae sôn yn ei deithlyfrau Seisnig am 'the sons of those' yn Lloegr; cymh. Chandler, *John Leland's Itinerary*, t. 50 a 57.

a rhagdybia wybodaeth fanwl am logisteg taith Harri o Aberdaugleddau yn Sir Benfro i Bosworth.⁷⁹ Ar ôl mynd heibio i Aberystwyth cyrhaeddodd Harri a'i lu Fachynlleth ar Awst 13, a threuliodd y noson ym Mathafarn gerllaw, efallai ar aelwyd y bardd a'r uchelwr Dafydd Llwyd o Fathafarn. Wedyn, ger y Trallwng, cyfarfu â Rhys ap Thomas ac eraill,⁸⁰ ond ni ellir bod yn gwbl sicr pa lwybr a gymerwyd. Awgrymodd W.T. Williams, 'on this day, Henry marched across the hilly district that lies between the valley of the Dyfi and the valley of Severn and following the course of the latter river for a few miles reached Newtown'.⁸¹ Yma mae cysylltiad eglur rhwng Machynlleth a'r Drenewydd (a hefyd y Trallwng) gyda'r cyfeiriad at ddyffrynnoedd Dyfi a Hafren. Mae gan y ddwy afon yr un wahanfa ddŵr (*watershed*).⁸² Yn sicr, nid oedd John Leland yn hydrolegwr, ond mae'n bosibl ei fod yn gwybod am y rhwydwaith o ddyffrynnoedd yng nghyffiniau Pumlumon a'r afonydd a lifai hyd-ddynt. Yn wir, ysgrifennodd Lewys Glyn Cothi,

Tair afon Pumlumon lân
o'r un tir a wna teirran;
o'u haber y câi werin
mêl ac aur yn aml a gwin.
O Bumlumon Gwinionydd
tair afon dros hon y sydd,⁸³

⁷⁹ Gw. W.T. Williams, 'Henry Richmond's itinerary to Bosworth', *Y Cymmrodor*, 29 (1915), 33–43 a Ralph A. Griffiths and Roger S. Thomas, *The Making of the Tudor Dynasty* (Stroud and New York, 1993), tt. 146–8 a 140–1 (map), gyda dyddiadau gwahanol; dilynaf y gwaith olaf. Cymh. hefyd Glanmor Williams, *Recovery, Reorientation and Reformation. Wales c.1415–1642* (Oxford, 1987), tt. 220–2 a'r map yn Glanmor Williams, *Harri Tudur a Chymru / Henry Tudor and Wales* (Caerdydd, 1985), t. 112.

⁸⁰ Ralph A Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his family: A study in the Wars of the Roses and early Tudor politics* (Cardiff, 2014), tt. 41–2.

⁸¹ Williams, 'Henry Richmond's itinerary to Bosworth', t. 40. Cymh. '[c]rossing the bleak watershed between the Dyfi Valley and the valley of the Upper Banwy, his army eventually reached the vicinity of Welshpool', Griffiths & Thomas, *The Making of the Tudor Dynasty*, t. 147.

⁸² *Royal Commission on Land in Wales and Monmouthshire. Reports* (H.M. Stationery Office, 1896), tt. 27–8.

⁸³ *GLGC*, 80.17–22.

a'r tair afon, fel y nododd Dafydd Johnston, yw Hafren, Gwy a Rheidol. Yn ddiweddarach o lawer sylwodd A.G. Bradley, '[m]any rivers rise to the southward of Plinlimmon: the Towy, the Teify, and the Elan, the Ystwith, the Yrfon, the Doethea, the Dulas and the Claerwen are the chief among them', a chofnododd fod Pumlumon yn fam neu yn hytrach yn dad i lawer o afonydd yr ardal yn ôl mytholeg leol.⁸⁴

Felly, mae'n bosibl fod y disgrifiad o *Rivers in Wicestershire* John Leland yn cynnwys haenau gwahanol. Mae'n gywir wrth ddisgrifio cwrs afon Hafren o Bumlumon ac i gyfeiriad y Drenewydd a'r Trallwng. Rhestrwyd Llanidloes a Chaersws yn y drefn anghywir, ac mae Machynlleth yma yn amherthnasol. Nid oes sôn am Landinam y cyfeiriodd Leland ati yn ei deithlyfr ac nid yw safle Caersws ar lannau afon Hafren yn bendant. Yn ddi-ddorol, rhoddodd Leland y pellter rhwng Caersws a Machynlleth ('it is xvi. miles betwixt Cairlleys and Mahenclif' *It.* 55) ond ar gyfer Llanidloes cyfeiriodd at Drefaldwyn ('Llanindelas xiii. miles by west Montgomery') yn ogystal ag at Fachynlleth ('Mahenthle [...], a xvi. Walche miles from Montgomeri' *It.* 12). Y mae gwybodaeth Leland am Swydd Gaerwrangon yn dyddio o'r adeg a dreuliodd yno, a hynny naill ai yn hwyrach neu o bosibl yn gyfamserol â chyfnod ei deithiau yng Nghymru.⁸⁵ Ni ddaeth Leland ei hun at darddle afon Hafren, ond roedd yn selog dros Harri Tudur a deithiodd gyda'i lu o Fachynlleth i'r Drenewydd a'r Trallwng, heb alw yn Llanidloes nac yng Nghaersws yn ôl pob golwg, gan ddilyn cwrs afon Hafren a nentydd eraill.

'The name of a place is clearly part of its identity', medd John Scattergood, 'but for Leland [...] names also carry with them historical associations and indications of events'.⁸⁶ Hefyd, fel y nododd Jennifer Summit, 'throughout the *Itinerary*, Leland's description of the landscape serves as an extended meditation on historical change'.⁸⁷ Wrth gwrs, mae llithriadau yn ei waith, ac amwysedd hefyd weithiau, fel yn 'Kenchester standeth a iii. myles

⁸⁴ A.G. Bradley, *A Book of the Severn* (London, 1920), t. 18 a 10.

⁸⁵ Chandler, *John Leland's Itinerary*, t. 508.

⁸⁶ Scattergood, 'John Leland's *Itinerary* and the identity of England', t. 68.

⁸⁷ Summit, 'Leland's *Itinerary* and the remains of the medieval past', t. 163.

or more above Hereford upward on the same side of the ryver that Herford doth; yet is yt almost a myle fro the ripe of Wy' (*It.* 102–3). Y mae'n werth gofyn a yw hyn yn ffrwyth 'fanatical adoration' Leland o'r Tuduriaid ar y naill law a diffyg gwybodaeth fanwl o'r ardal ar y llaw arall.

5. Môr Hafren a'r Bristol Channel

Dyma sylw Richard Morgan am Fôr Hafren / y Bristol Channel yn ei astudiaeth o enwau lleoedd Gwent:

The sea channel, of course, leading towards Bristol, once one of the largest ports in England; properly the 'Severn Sea' (recorded 1387) in E where the r. Severn (*môr* and rn. *Hafren*) meets the open sea. Bristol Channel does not appear to have been in widespread vernacular use among E speakers before the middle of the 18th cent.⁸⁸

Er ei fod yn cyfeirio yma at gofnod Saesneg sy'n dyddio o 1387, perthyn yr enghraifft gyntaf a roddir i 1599: 'the sea of Sevarne at Chepstowe, so they calle Mare Hafren'. Yn y *Dictionary of the Place-Names of Wales*, dyddiwyd y dystiolaeth gyntaf yn 1536–9 (*Severn Se*).⁸⁹ Mae'n perthyn i John Leland a ddefnyddiodd y sillafiadau *Severn Se* (*It.* 29, 43, 46, 61, 62, 116) a hefyd *Severne Se* (*It.* 12, 13, 15), a chymharer 'Mor haveren, id est, mare Sabrinum' yn ei *Collecteanea*.⁹⁰ Fodd bynnag, ceir yr enghreifftiau cynharaf o *Fôr Hafren* yn Llyfr Llandaf fel y nodwyd yn *GPC*, d.g. *môr*¹, a thrafododd J.B. Coe y data sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ac sy'n cynnwys *mare hafren* a *abrinum mare*.⁹¹ Tystiwyd i'r enw yn Gymraeg gan Lewys Glyn Cothi a

⁸⁸ Richard Morgan, *Place-names of Gwent* (Llanrwst, 2005), t. 52.

⁸⁹ Owen & Morgan, *Dictionary of the Place-Names of Wales*, t. 47.

⁹⁰ *Joannis Lelandi antiquarii De rebus Britannicus Collecteanea*, ed. Thomas Hearne, volume 4 (London, 1774), t. 90.

⁹¹ Jonathan Baron Coe, 'The place-names of the Book of Llandaf' (Ph.D., Aberystwyth, 2001), tt. 352–3.

Hywel Dafï yn y bymthegfed ganrif,⁹² ac mae'n amlwg fod rhaid ei ystyried mewn astudiaeth o onomasteg.

Ystyriodd Ralph A. Griffiths y dystiolaeth olaf yn ei drafodaeth ar *Fôr Hafren* yn y bymthegfed ganrif ochr yn ochr ag eiddo William Worcestre.⁹³ Cyfeiriodd at rai enghreifftiau, sef *mare Sabrini* (*It.W* 66), *mare de Severn* (*in mari de Severn, It.W* 140) a *mare de Severne*.⁹⁴ Mae'r bedwaredd enghraifft yma yn hynod ddiddorol: yn *It.W* 110 ceir *aqua Severn*, yn ddiamau am Fôr Hafren ac nid am yr afon (*Pentybersrok maximus scopulus in aqua Severn scita ex parte occidentali portus de Padistow [...] et distat a firma terra per .j. vnum miliare*). Fel arfer defnyddiai William Worcestre y gair *aqua* i ddynodi 'afon', ond mae'n amlwg fod *aqua* (*de*) *Severn* yma'n cyfateb i Fôr Hafren. Felly rhaid cywiro rhai cyfieithiadau Saesneg yng ngwaith Frances Neale.⁹⁵ Yn wir, nodir hyn bellach am y Bristol Channel / Môr Hafren, 'the name is now applied to the large area of sea between south Wales and the English counties of Somerset and Devon',⁹⁶ ac fel y nododd Humphrey Llwyd (1527–68), yr oedd Dyfnaint wedi ei lleoli rhwng *mare Sabrini* ac *Oceanum Britannicum*, sef y Sianel.⁹⁷ Hefyd, fe geir un enghraifft arbennig o'r ymadrodd Lladin gan William Worcestre. Yn ei daith yn 1478 rhydd yr hynafiaethydd ddisgrifiad o Gernyw sy'n dechrau gyda *Le northsee Ville principales super mare boriale scite* (*It.W* 30),⁹⁸ lle y defnyddir

⁹² *GLGC*, 12.67 a 135.14; *GHDafï*, 94.63.

⁹³ Ralph A. Griffiths, 'Sailing the Severn Sea in the mid-fifteenth century', yn *The world of the Newport Medieval Ship: Trade, politics and shipping in the mid-fifteenth century*, ed. E.T. Jones and Richard G. Stone (Cardiff, 2018), tt. 95–113 (t. 108).

⁹⁴ *William Worcestre: The Topography of Medieval Bristol*, ed. Frances Neale (Bristol, 2000), t. 228.

⁹⁵ Fel yn Neale, *William Worcestre*, t. 227. Cymh. amwysedd *Sebarne* (Llyfrgell Brydeinig, Lansdowne Ll. 285, c.1468/1469), gw. *Sailing directions for the circumnavigation of England and for a voyage to the Straits of Gibraltar*, ed. James Gairdner and Edward Delmar Morgan (London, 1889), t. 21 ('Sebarne—The river Severn, or Bristol Channel', t. 34).

⁹⁶ Owen & Morgan, *Dictionary of the Place-Names of Wales*, t. 47.

⁹⁷ Humfredus Lhuyd, *Commentarioli Britannicae descriptionis fragmentum* (Cologne, 1572), t. 15.

⁹⁸ Am ystyr *super*, gw. Alexander V. Podossinov, 'Oben und unten. Begriffe der Raumorientierung in antiken Texten', yn *Vermessung der Oikumene—Mapping the Oecumene*, ed. K. Geus and M. Rathmann (Berlin, 2012), tt. 5–23 (tt. 13–9).

mare boriale, sef ‘môr y gogledd’, am Fôr Hafren. Mae’n sicr fod y defnydd yma yn lleoliadol, ac nid yn derminolegol: lleolir St. Ives, Redruth, Tintagel ac ati ar lan y môr yng ngogledd Cernyw. Gwerth nodi hefyd mai *North Severn* se a geir yn llyfr taith John Leland, ‘[t]he principal hedde of Fowey ryver ys yn Fowey Moore. [...] It is a xvi. miles be land from Fowey toun, and withyn a 2. miles from Camelford, and a 4. miles from the North Severn se’.⁹⁹

Dewisodd rhai ei alw yn ‘fôr y de’. Digwydd *aufferreum mare* yn llyfr Llandaf a chaiff ei gysylltu â *mare Austreum* yn *Vita Sancti Samsonis*.¹⁰⁰ Cymharer, o bosibl, y darn Saesneg Canol (c.1450) hwn:

þe lymytys of þis kyndam þey streyðthen y-wys
 From þe water of Dee on þe west-syde Cheyster,
 þat fayre cyte,
 Douneby þe water of Seuerne, þe whiche by
 Shrewysbury rennyng is,
 And euene to Brystowe in-to þe sowthe-see.¹⁰¹

Mae’r anghysondeb hwn yn ddealladwy. Fel yr ysgrifennodd Richard Gorski, ‘seas have been named on the basis of their apparent extent and the name-giver’s relative orientation’,¹⁰² a dynoda Môr y De a Môr y Gogledd rywbeth gwahanol heddiw. Hefyd, yn aml, bydd enwau yr un môr ei hun yn wahanol mewn testunau canoloesol. Felly, galwyd Môr y Canoldir yn *Mor Groec*, *Mor Mawr* a *Mor Perued* yn ‘Delw y Byd’.¹⁰³ Yn ddiweddarach ceir enwau eraill arno fel *Môr Canol y Ddaear* (16g.), y *Môr Canol* (1604–7), y *Môr Eithaf* (1620), *Môr y Ganolwlad* (1658), *Môr y*

⁹⁹ L.T. Smith, *The itinerary of John Leland in or about the years 1535–1543*, volume 4 (London 1909), t. 128; ychwanegwyd *Camelford* a *the North Severn* o gopi o’r testun gan Stow.

¹⁰⁰ Gw. Coe, *The place-names of the Book of Llandaf*, t. 81.

¹⁰¹ *Altenglische Legenden*, neue Folge, ed. Carl Horstmann (Heilbronn, 1881), t. 284. Yn ôl *MED*, s.v. *sóuth-sē*, y mae’n dynodi ‘the seas bounding England to the east, south, and west’.

¹⁰² Richard Gorski, ‘Role of the Sea: views from the shore’, yn *Roles of the sea in medieval England*, ed. Richard Gorski (Woodbridge, Rochester, 2012), tt. 1–23 (t. 7).

¹⁰³ Gw. Lewis & Diverres, *Delw y Byd*, t. 118.

Gorllewin (20g.), ac ymddangosodd y *Môr Canoldir* yn y ddeunawfed ganrif yn unig, gweler *GPC*, d.g. *môr*¹. Beth bynnag, cyfranna'r dystiolaeth mewn sawl iaith ac o sawl cyfnod at yr ansicrwydd ynghylch enw'r môr.

ALEXANDER FALILEYEV
Aberystwyth